

Darganfod Eryri Discover Eryri

Parc Cenedlaethol Eryri Snowdonia National Park



www.cymdeithas-eryri.org.uk
www.snowdonia-society.org.uk

Diwylliant

O fewn y Parc Cenedlaethol mae traddodiad diwylliannol arbennig a hynod yn goroesi. Mae'n seiliedig ar yr iaith Gymraeg sy'n famiaith i lawer o bobl yma ac sy'n cael ei meithrin ym mhob ysgol bentref. Yn llawer hyn na'r Saesneg, mae'r iaith hynafol hon yn sicrhau cysylltiad uniongyrchol gyda'r gorffennol. Am gannoedd o flynyddoedd, yn y Gymraeg y traddodwyd cylch stori Geltaidd y Mabinogi gan feirdd yn llysoedd Tywysogion Gwynedd nes iddi gael ei rhoi ar bapur yn y 14eg ganrif. Yn yr 16eg ganrif, cyfieithwyd y Beibl o'r Hebraeg i'r Gymraeg gan William Morgan, Tŷ Mawr Wybrnant. Y prif reswm dros oroesiad yr iaith, er gwaethaf ymdrechion swyddogol i'w difa, oedd bodolaeth copi o'r Beibl yn yr iaith Gymraeg ym mhob cartref.

Heddiw mae cerddoriaeth, barddoniaeth a drama'n cael eu hannog drwy gyfrwng cystadlaethau mewn ysgolion a phentrefi hyd at lefel yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn y 18fed ganrif ysbrydolodd tirluniau hardd Eryri rai o brif feirdd ac arlunwyr Prydain yn cynnwys Richard Wilson, arloeswr ym maes peintio tirluniau Prydain. Yn y 19eg ganrif ymgasglodd artistiaid o Loegr ym mhentref tŷws Betws y Coed. Yn fwy diweddar mae artistiaid lleol, yn cynnwys yr hynaws Kyffin Williams, wedi magu enw da am eu dehongliadau o dirlun mynydd a bywyd amaethyddol.

Drwy ysbrydoli'r ffasiwn am ymweld â Gogledd Cymru rhoddodd arlunwyr a beirdd y symudiad Rhamantus hwb i Eryri fel ardal ddefnyddiol i dwristiaid ymweld â hi.



Tŷ Mawr

Culture

Within the National Park a distinct and remarkable cultural tradition survives. It is based on the Welsh language which is still the mother tongue of many people and is fostered in every village school. Far older than English, this ancient language provides a direct link with the past. It was the medium in which the Celtic story cycle of the Mabinogion was declaimed by bards at the courts of the Princes of Gwynedd for hundreds of years until it was written down in the 14th century. In the 16th century, the Bible was translated from Hebrew into Welsh by William Morgan, born at Tŷ Mawr, Wybrnant. The existence of a Welsh Bible in every household was the main reason why the Welsh language survived, despite official efforts to eradicate it.



Corlan / Cellular Sheepfold

Today, music, poetry and drama are encouraged through competitions at school and village level leading up to the National Eisteddfod. In the 18th century the sublime landscapes of Snowdonia inspired some of Britain's leading poets and painters, including Richard Wilson, the father of British landscape painting. In the 19th century a colony of English artists settled in the picturesque tourist resort of Betws y Coed. More recently local artists, most notably Kyffin Williams, have become well known for their interpretations of mountain scenery and farming life.

By inspiring a fashion for visiting North Wales the painters and poets of the Romantic movement helped to make Snowdonia the cradle of tourism as we now know it.

Tirlun

Mae tirlun eithriadol Eryri yn amrywio o'r copaon moel a'u creigiâu drylliedig i dwyni tywod a thraethau, cymoedd creigiog, gweunydd corsiog, llechweddau coediog, llynnoedd hirgul ac aberoedd llanwol. Crëwyd yr amrywiaeth hon gan ddaearog gymhleth o greigiâu folcanig caled a grëwyd 450 miliwn o flynyddoedd yn ôl am yn ail â thwyddfaen meddalach a cherrig llaid o welyau moroedd bas. Cynheswyd y creigiâu hyn cyn iddynt gael eu gwasgu a'u plygu gan ddiwyddiadau nerthol diweddarach ac yna eu cafnio a'u cerfio gan rym di-iddio rhewlifoedd i'w ffurfiau presennol. Dŵr yw'r elfen gyson arall; cawodydd glaw'n gorchuddio'r mynyddoedd, llynnoedd dirgel, pylau corsiog wedi eu gwasgaru ar draws gweundir agored, nentydd byrlmog a cheunentydd llaith.

Yn y cymoedd mae gweddillion coedlannau derw a arferai orchuddio Eryri hyd at 600 metr uwchben y môr yn cyferbynnu gydag ochrau syth coedwigoedd conifer nad ydynt yn cynnig llawer i fywyd gwylt. Mae'n ymddangos mai camgymeriad anffodus oedd plannu'r rhain. Serch hynny, mae pobl hefyd wedi cyfrannu mewn ffyrdd positif at y tirlun hwn. Mae tyddynnod bychain, corlannau cymhleth ar ffurf celloedd a thyllau defaid celfydd drwy gelloedd cerrig sych i gyd yn ein hatgoffa o draddodiad amaethyddol sy'n mynd yn ôl gannoedd, os nad miloedd, o flynyddoedd.



Glaslyn

Mae hi'n anochel y bydd newidiadau mewn hinsawdd ac ymarferion fermio yn newid pryd a gwedd Eryri ond bydd y nodweddion sy'n arglwyddiaethu yma megis creigiâu a dŵr a hanes a diwylliant pobl yn parhau.

Landscape

The landscape of Snowdonia is outstandingly diverse. It ranges from bleak, frost-shattered summits to sand dunes and beaches, by way of boulder-strewn cwms, boggy moorland, wooded hillsides, ribbon lakes and tidal estuaries. This variety has been created from a complex geology of hard volcanic rocks laid down 450 million years ago interleaved with softer sandstones and mudstones from the beds of shallow seas. These rocks were heated, compressed and folded by later cataclysmic events and subsequently gouged and carved by the inexorable power of glaciers into their present forms. Water is the other constant element: rain clouds cloaking the mountains, remote lakes, bog pools scattered across open moorland, tumbling streams and spray-filled gorges.

In the valleys remnants of oak woodland that once covered Snowdonia up to 600 metres contrast with straight-edged and ecologically impoverished conifer plantations. Mostly these were a regrettable mistake. But people have also contributed positively to this landscape. Small farmsteads, elaborate cellular sheepfolds and carefully made sheep-creeps through dry stone walls are all reminders of an agricultural tradition going back hundreds, if not thousands, of years.

Changes in climate and in farming practice will undoubtedly alter the fabric of Snowdonia but the dominant features of rock and water and the cultural overlay of human history will remain.



Cwm Idwal

Hanes

Mae'r gorffennol i'w weld ym mhobman yn Eryri. Chwe mil o flynyddoedd yn ôl gadawodd y ffermyr cynnar siambrau claddu cymunedol, neu gromlechi, a luniwyd o greigiâu enfawr. Yn ddiweddarach, yn yr Oes Efydd, arferai pobl gladdu eu meirw mewn cistiau cerrig, a'u gorchuddio gyda charneddau enfawr. Hwy hefyd a gododd y meini hirion a'r cylchoedd cerrig. Gadawodd llwythau Oes yr Haearn arfau a chelfi haearn yn ogystal â gemythau ac addurniadau o aur ac arian gyda phatrymau Celtaidd hardd. Mae anheddau'r bobl yma'n dal yn amlwg fel clystrau o gylchoedd cerrig a elwir yn gytiâu'r Gwyddelod, yn aml yng nghyffiniau ceiri ar gopaon y bryniau.



Castell y Bere

Gadawyd ffyrdd a phonciau pridd eu ceiri hymdeithio gan y Rhufeiniaid. Yn fwy cymhleth oedd y cestyll cerrig a godwyd gan Dywysogion Cymru yn y Canol Oesoedd, er bod y rhain wedi eu tafu i'r cysgod yn ddiweddarach pan adeiladwyd cestyll y Saeson yng Nghonwy, Caernarfon a Harlech. Mae eglwysi cerrig bychain yn y bryniau hefyd yn dyddio'n ôl i'r cyfnod hwn, tra bod ffermdai gyda thrawstiau derw enfawr ac aelwydydd o dan gysgod y simnai fawr yn nodweddiadol o'r cyfnodau mwy sefydlog wedi hyn.

Nodweddir y 19eg ganrif yn bennaf gan gabanau hollti a barics y chwareli llechi, melinau malu a simneiau gwaith copr a phlwm, a'r tomenni o wastraff o amgylch bob un. Mae'r cloddiau cerrig yn uchel ar y mynyddoedd yn aml yn dyddio o gyfnod y Deddfau Cau Tiroedd pan adawodd llawer o bobl y mynydd am y chwarel. Ar un cyfnod roedd y capeli, sydd i'w gweld ym mhobman hyd heddiw, yn ffynhonnell o obaith a chysur i bobl nad oeddnynt yn cael eu trin yn deg. Ymysg cyfraniad yr 20fed ganrif i'r tirlun mae argaeau, gorsafoedd pŵer, peilonau, a mastiau ffôn symudol - symbolau amlwg o'n blaenoriaethau ni.

History

The past is visible everywhere in Snowdonia. Six thousand years ago the earliest farmers left behind communal burial chambers, or cromlechs, made from massive blocks of stone. Later, in the Bronze Age, people buried their dead individually in stone cists, covered by huge cairns, and also built their mysterious standing stones and stone circles. Iron Age tribes left behind not only iron weapons and tools but jewellery and ornaments in gold and silver with beautiful Celtic motifs. The settlements of these people are still visible as clusters of hut circles, often not far from hill top fortifications.

The Romans left roads and the grass banks of their marching forts. More elaborate were the stone castles built by the Welsh Princes in the Middle Ages, soon overshadowed by the massive constructions of the English at Conwy, Caernarfon and Harlech. Small stone churches in the hills are another legacy of that period, while solid farmhouses with massive oak beams and inglenook fireplaces are typical of the more settled times that followed.

The 19th century is characterised chiefly by the cutting-sheds and barracks of slate quarries, the crushing mills and chimneys of copper and lead mines, and the piles of waste or spoil surrounding each. Stone walls high in the mountains often date from the Enclosure Acts which drove many off the land into the quarries. The chapels, still to be seen everywhere, were once a source of hope or solace to a dispossessed and exploited people. The 20th century's contribution to the landscape has included dams, power stations, pylons, and mobile phone masts - potent symbols of our own priorities.

Bywyd gwylt

Hyd yn oed yn amgylchedd garw copaon Eryri mae ychydig o blanhigion yn llwyddo i oroesi. Yn gorchuddio'r creigiâu mae cen gwyrdd a melyn, mae mwsogl gwlanog llwyd a'r helygen fach yn cofleidiu'r ddaear a'r wrychredynen galed yn cuddio yn y cilfachau. Mewn ambell le, lle nad yw defaid yn gallu pori, mae'r ddaearog yn galluogi rhywogaethau arctig-alpaidd prin i dyfu, blodau fel y tormaen porffor hardd, y derig, y gronnell a lili'r Wyddfa, nad yw'n tyfu'n unlle arall ym Mhrydain. Yn is i lawr, rhedyn a'r gawnen ddu sy'n arglwyddiaethu'n bennaf ac yn y mannau mwy llaith, brwyn a thwmpathau o laswellt y gweunydd. Ymysg y gwellt sy'n hoff gan ddefaid mae blodau llwgar fel y tresgl y moch melyn, y friwrydd wen, y llaethlys glas a melog y ŵn pinc yn tyfu. Yn y gwanwyn, mae clychau'r gog yn gorchuddio llethrau a oedd unwaith yn goediog. Ar fannau lle nad oes llawer o bori mae rhostir grugog, sy'n cynnwys grug cyffredin, grug y mêl, grug croesddail, llus ac eithin, yn datblygu. Mewn mannau llaith a mawnog, mae mwsogl migwyn a plhu'r gweunydd yn ffynnu, ochr yn ochr â blodau deniadol fel llafn y bladur, tafod y gors a chwys yr haul pryfod ac, ar ddŵr agored, ffa'r gors.

Ar yr ucheldir, clywir yn aml alwadau nodweddiadol y gigrfan, y bwnath a'r fran goesgogoch. Rdydych yn debygol o weld adar eraill hefyd fel yr hebog tramor, y rugiar goch, y cudyll coch ac, yn yr haf, tinwen y garn a mwyalchen y mynydd. Mae heidiau o eiffr gwylt blewog yn olafgyfyfarwydd. Mae'r anifeiliaid trawiadol hyn gyda'u cyrn hir sy'n gwyro at yn ôl yn gallu achosi

Wildlife

Even in the harsh environment of Snowdonia's summits a few plants manage to survive. Green and yellow lichens coat the rocks, grey woolly hair moss and creeping willow hug the ground and hard-shield fern hides in crevices. In a few places, out of reach of sheep, the underlying geology enables rare arctic-alpine species to grow, flowers like the lovely purple saxifrage, mountain avens, globeflower and the iconic Snowdon lily, found only here in Britain. Lower down, land is often dominated by bracken and wiry mat-grass and, in wetter places, by rushes and the tussocks of purple moor grass. Yellow tormentil, white bedstraw, blue milkwort and pink lousewort are splashes of colour among grasses more palatable to sheep. In spring, bluebells cover slopes which were once wooded. Where there is little grazing heather moorland develops containing ling, bell heather, cross-leaved heath, bilberry and gorse. In wet, peaty areas, sphagnum moss and cotton grass thrive, along with attractive flowers like bog asphodel, the insectivorous butterwort and sundew, and, in open water, bogbean.

In the uplands, the distinctive calls of raven, buzzard and chough are often heard. Other birds likely to be seen are peregrine, red grouse, kestrel and, in summertime, wheatear and ring-ouzel. Herds of shaggy, feral goats are a frequent sight. These striking animals with long, swept-back horns are capable of causing much damage in woodland. Badgers are found everywhere, their setts occurring well above the tree-line in places. Much scarcer is the rainbow beetle, found only in Snowdonia. Ecologically, Snowdonia is famous for its sessile oakwoods which have survived chiefly on the steeper valley slopes. They are particularly valued for their wealth of lichens, mosses, liverworts and ferns,

cryn ddfrod i goedlannau. Mewn mannau mae daearau moch daear i'w gweld yn uchel uwchben llinell y coed. Yn llawer mwy prin mae chwilen yr enfys. Nid yw hon yn byw yn unlle ond yn Eryri.

O ran eoleg, mae Eryri'n enwog am ei choedydd derw digoes sydd wedi goroesi'n bennaf ar lethrau mwy serth y dyffrynnoedd. Maent yn hynod o werthfawr oherwydd eu cyfoeth o gennau, mwsogla, llysiâu'r afu a rhedyndau, sy'n ffynnu yn yr awyrgylch gysgoddol a llaith. Yn is i lawr ac ar bridd llaith asidig mae'r onnen yn ffynnu ac yma ceir planhigion daear mwy amrywiol fel y friwydd bêr, blodyn y gwynt, chwerwlys yr eithin a garleg gwylt a'i arogl cryf. Yn y gwanwyn mae'r choedydd collddail yma'n llawn o adar fel y gwybedog brith, titwod, cnoellau, telorion, dringwr y coed, delor y cnau a'r tingoch. Mae'r choedwigoedd conifer yn llawer mwy distaw er eu bod yn gartref i'r dryw eurben, y gylfin groes, y pila gwyrdd ac, ar y cyron, y rugiar ddu.


Ar lannau nentydd a lifa'n gyflym ceir bronwen y dŵr a'r siglen lwyd, ac yn nofio ar y llynnoedd a'r aberoedd mae hwyaid copog, pengoch, danheddog, brongoch, a hwyaid yr eithin yn ogystal a'r fulfran a'r wyach fawr gopog. Yn ddiweddar, mae'r gwalth y pysgod wedi nythu ger Aberglaslyn. Yn ddiweddar mae arwyddion bod poblogaeth y dyfrgi'n cynyddu. Hefyd, er bod eu nifer wedi gostwng, mae'r afonydd llanwol yn cynnal siwin ac eog, mae'r torgoch yn byw mewn pedwar o'r llynnoedd ac yn Llyn Tegid mae'r gwyniad unigryw yn byw.

Yn anffodus rhywogaethau estron ymwithiol fel y rhododendron, clymog Japan a jac-y-neidiwr yw rhai o blanhigion amlycaf Eryri.

which thrive in the sheltered, humid atmosphere. At lower altitudes and on less acid soils, ash flourishes with a more varied ground flora of plants like woodruff, wood anemone, wood sage, primrose, bluebell and pungent wild garlic. In spring these deciduous woods are alive with pied flycatchers, tits, woodpeckers, warblers, tree-creepers, nuthatches and redstarts. The conifer forests are much quieter, but still home to goldcrest, crossbill, siskin and, on the edges, black grouse.

Quick flowing streams are the haunt of dipper and grey wagtail, while on the lakes and estuaries swim tufted duck, pochard, goosander, red-breasted merganser, shelduck, cormorant and great crested grebe. Recently ospreys have bred near Aberglaslyn. Otters have been making a welcome comeback. Although numbers have declined, the tidal rivers contain sea trout and salmon, four of the lakes contain char and in Llyn Tegid lurks the unique gwyniad.

Unfortunately some of the most visible plants in Snowdonia are alien invasive species such as rhododendron, Japanese knotweed and Himalayan balsam.




Bronwen y dŵr / Dipper



Criafolen / Rowan



Brân goesgogoch / Chough



Grug ac eithin / Heather and gorse

Crëwyd y map eglurhaol a'r cyflwyniad hwn i rinweddau arbennig Eryri gan Gymdeithas Eryri gyda chefnogaeth ariannol Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Am fwy o wybodaeth am ddiwylliant, tirlun, hanes a bywyd gwylt Parc Cenedlaethol Eryri a'r cyfleoedd sydd yma am hamdden, ymwelwch â gwefan y Gymdeithas.

www.cymdeithas-eryri.org.uk

Mae'r Gymdeithas yn elusen gofrestrdedig sydd wedi ymrwymo i warchod a gwella nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol i bawb eu mwynhau. Mae aelodaeth ar gael i unrhyw un sydd â diddordeb yn Eryri. Am fwy o wybodaeth am ein gwaith, ein cylchgrawn a'n rhaglen o deithiau tywys a digwyddiadau addysgiadol ymwelwch â'n gwefan neu galwch draw i'n gweld yn ein pencadlys, Tŷ Hyll, ar yr A5 ger Capel Curig.



This illustrative map and introduction to Snowdonia's special qualities has been created by the Snowdonia Society with the financial support of the Countryside Council for Wales and the Snowdonia National Park Authority. To find out more about the culture, landscape, history and wildlife of the Snowdonia National Park and its recreational opportunities, visit the Society's website:

www.snowdonia-society.org.uk

The Society is a registered charity dedicated to protecting and enhancing the special qualities of the National Park for all to enjoy. Membership is open to anyone with an interest in Snowdonia. To find out more about our work, magazine and programme of guided walks and educational events visit our website, or visit us at our headquarters: Tŷ Hyll, (The Ugly House), on the A5 near Capel Curig.

Tarddiad y map eglurhaol ar ffurf sgets yw ffotograffiaeth o'r awyr. The illustrative sketch map has been derived from air photography.

Argraffwyd y daflen hon ar bapur sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd. This leaflet has been printed on environmentally friendly paper: 3/09/30.

Clawr / cover: Steve Lewis: www.landscapesofwales.co.uk Cynllunwyd a chynhyrwyd gan Atkins-Heneghan Designed & produced by Atkins-Heneghan atkinsheneghan.co.uk / atkinsheneghan.com / info@atkinsheneghan.com